# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2018/19

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** Ieuan Williams
**Parti:** Y Grŵp Annibynnol **Ward:** Lligwy

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rwyf yn Ddirprwy Arweinydd y Cyngor ac yn ddeilydd portffolio dros y Gymraeg a Thechnoleg Gwybodaeth. Yn ychwanegol rydwyf yn cynrychioli'r Cyngor ar Gyngor Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru ac yn cynrychioli grŵp annibynnol y CLILC ar y Cyngor Partneriaeth rhwng Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru.

| **Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Manylion ar wefan y Cyngor: [Presenoldeb] |
| Pwyllgor Adfywio | |
| Pwyllgor Gwaith | |
| Pwyllgor Penodiadau (Cadeirydd) | |
| Pwyllgor Ymchwilio | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru<br>Fforwm Iaith Môn | Gweler:<br><br>https://www.wlga.cymru/home |
| Llywodraethwr - Ysgol Gynradd Goronwy Owen, Benllech | |
| Llywodraethwr - Ysgol Uwchradd Syr Thomas Jones, Amlwch | https://www.ysgolsyrthomasjones.cymru/ |
| Menter Môn | https://www.mentermon.com/ |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Rwyf wedi rhoi cymorth i etholwyr ar nifer o faterion sy'n ymwneud a'r gwasanaethau mae'r Cyngor yn ei gynnig. Esiamplau yw gwneud ymholiadau efo'r adran dai ynglyn a gwaith atgyweirio, ceisio rhoi ymgeiswyr ar ben ffordd efo gwneud cais am dŷ cyngor, galw ceisiadau i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio a siarad ar eu plaid neu ei gwrthwynebu, ceisio rhoi dehongliad i ymgeiswyr ar y Cynllun datblygu Lleol, rhoi pwysau ar yr adran Briffyrdd (ynghyd ac holl aelodau'r Cyngor Cymuned) i leoli croesfan rhwng y Co-op a fflatiau newydd ar safle hen westy Glanrafon. Ceisio helpu efo dehongliad y ddeddfwriaeth tai ynglyn a'r premiwm ar ail dai, pan mae adeilad wedi ei adeiladu yn bwrpasol fel annedd gwyliau.

Rwyf yn gadeirydd Bâd Achub Moelfre ac yn cadeirio y cyfarfod rheoli risg misol. Yn ddiweddar bu achlysur enwi y bâd achub "inshore" newydd.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf i (ers fy ethol y tro cyntaf yn 2008) a'r Cyngor Cymuned lleol yn gweithio gyda'r Adran Briffyrdd i geisio dod o hyd i ddatrysiad wneith liniaru'r trafferthion traffig yn y sgwar ar adegau mwyaf prysur y tymor gwyliau. Mae arolwg wedi cael ei wneud yn ddiweddar ar rydym yn disgwyl am y canlyniadau ar hyn o bryd. Mae datrysiad wneith fodloni pawb yn aruthrol o anodd i ddod o hyd iddo oherwydd natur gymhleth y groesffordd yn y sgwar. Mae saith mynediad yno, nid pedwar ac nid yw'r ffordd ddigon llydan i gymryd "roundabout".

Rwyf hefyd yn aelod o'r Cyngor Cymuned lleol ac rydym yn gwneud mwy o waith gwirfoddol o gwmpas yn pentref y flwyddyn yma. Rydym wedi bod yn llnau y "bus stops" ac arwyddion ffordd, da ni'n ganol ail beintio'r hen golofn arwydd ffordd du a gwyn yn y sgwar ac byddwn yn lleoli 'planters' blodau o amgylch y pentref yn y dyfodol.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgListTraining.aspx?UID=7&RPID=500087306&LLL=1

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=7&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Ieuan Williams** | **Mai 2019** |